**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Rocio Cifuentes
Comisiynydd Plant Cymru

20 Gorffennaf 2023

**Cais am ymateb i ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad, 'Os nad nawr, pryd?'**

Annwyl Rocio,

Fel y gwyddoch, ar 24 Mai 2023, cyhoeddodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei adroddiad ar ddiwygio radical ar gyfer gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar 5 Gorffennaf 2023.

Cynhaliwyd dadl yn y Senedd ar yr adroddiad ac ymateb Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2023. Gwnaethom wahodd y plant a'r bobl ifanc, y gweithwyr proffesiynol a’r academyddion a gyfrannodd i’n hymchwiliad i ddod i'r Senedd i wylio'r ddadl honno'n fyw o'r oriel gyhoeddus. Roeddem wrth ein boddau y daeth tua 90 o bobl, bron yn llenwi'r oriel gyhoeddus. Gallwch ddod o hyd i gyfraniadau Aelodau ar draws y Senedd yn ystod y ddadl honno o ddiddordeb.

Fel Pwyllgor, rydym yn siomedig gydag ymateb Llywodraeth Cymru. Felly, rydym wedi gofyn i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol roi rhagor o dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 14 Medi i drafod ei hymateb yn fanylach. Rydym yn falch bod y Dirprwy Weinidog wedi derbyn y gwahoddiad hwnnw.

Rydym wedi ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog i ofyn am wybodaeth ychwanegol i ategu'r sesiwn honno. Hoffem hefyd glywed eich barn chi am ymateb Llywodraeth Cymru i'n helpu i ystyried sut i fwrw ymlaen â'r materion pwysig hyn.

A allwch roi eich barn chi i ni am ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad yn gyffredinol, a fesul argymhelliad, erbyn dydd Gwener 25 Awst fan bellaf?

Os yw'r amserlen hon yn heriol, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â'n clercod (SeneddPlant@Senedd.Cymru).

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.